CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
7 Ionawr 2020, CANOLFAN PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL: Cyng D I Roberts, E Williams, N Jones, D Gwyn, A Mummery, L Roberts, M Jones (Cyngor Sir), R Williams (Cyngor Sir)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng S Hughes	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 06.11.19. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng N Jones yn cynnig a Cyng D Gwyn yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Datblygu'r maes chwarae** - Mae'r Clerc wedi cyflwyno cais am grant i cael "walkway" ac yn disgwyl y penderfyniad
4.2	**BDO Archwilwyr Allanol.** Disgwyl ymateb gan Swyddfa Archwilio Cymru.
4.3	**Torri coed Penmynydd (Scottish Power)** - Mae'r Clerc wedi derbyn ymateb (copi ynghlwm) a bydd yn gofyn i Ed Henderson, Swyddog "Tree Preservations" am ei sylwadau
4.4	**Camerau cylch-cyfyng ar yr A55** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb
4.5	**Broadband** - Nodwyd mewn cyfarfod diweddar rhwng Menter Mon a Gwynedd eu bod wedi edrych ar feysydd heb fand eang a bod Penmynydd wedi'i gynnwys yn y cynllun.
4.6	**Ardaloedd o Harddwch Arbennig** - Dywedodd y Cadeirydd bod y grwp "Dim Peilonau" gyda proses i gynnwys mwy o ardaloedd o harddwch
4.7	**Adroddiad BDO 2018/19** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb
4.8	**Defibrillator** - Mae'r Clerc wedi derbyn pris gan Calonnau Cymru - £995 + £525 (pad gyda côd) a pris postio £12 cyfanswm £1532. Cytunwyd i symud ymlaen.
4.9	**Mynwnet Gilead** - Mae'r Clerc wedi derbyn ymateb gan y swyddog eiddo yn dweud bod y gwair yn cael ei dorri 6 gwaith y flwyddyn a'r gwrych unwaith y flwyddyn. Gofynwyd i'r Clerc cysylltu a'r swyddog i ofyn a yw'r gwaith yn cael ei wirio a'i adolygu?
4.10	**Gor-yrru Star** - Mae'r Clerc wedi gofyn i'r Cyngor Sir fesur cyflymder y traffig. Cododd yr aelodau bryder ynghylch cyflymder traffig yn y boreau ac ar benwythnosau wrth deithio yn ôl ac ymlaen i Benhesgyn. Hefyd, a yw'r Cyngor Sir yn barod i ledu'r ffordd a gwneud palmant, gan ystyried diogelwch plant ysgol sy'n cerdded yn ôl ac ymlaen i'r bws ysgol? Bydd y Clerc yn cysylltu a'r Cyngor Sir
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MôN**
	Cynllunio
5.1	Cais cynllunio FPL/2019/305 Parciau, Rhoscefnhir - dim sylwadau
	Llofnod **Cadeirydd** **05.02.20**

6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
	Dim
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Praesept 2020/2021. Cyflwynodd y Clerc / Swyddog Cyllid y gyllideb ar gyfer 2020/2021 a nododd fod angen i'r Cyngor leddfu'r praesept ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cytunwyd i gynyddu'r praesept i £ 7500.
7.2	Cytunwyd i dalu Rhys Williams £400 (torri gwair)
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Bus shelter Star - Mae'r lloches bws yn Star wedi'i ddifrodi eto. Bydd y Clerc yn cysylltu ag yswirwyr y Cyngor.
9	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
9.1	Coed tu ôl i bungalows y pensiynwyr, Star. Cynigodd Cyng A Mummery dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir
	Llofnod **Cadeirydd** **05.02.20**